# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 30 Ebrill 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Rhaglenni Ewropeaidd

**C11 Phil Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael i sicrhau y bydd yr adolygiad nesaf o wariant yn cwmpasu amrywiol raglenni Ewropeaidd? (OAQ17070)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Trafodaf y mater hwn ac eraill yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Wrth drafod â Llywodraeth Ei Mawrhydi, y brif flaenoriaeth yr wyf wedi'i phennu yw bod angen i'r adnoddau barhau y tu hwnt i drefniadau arferol fformiwla Barnett, o fewn setliad adolygiad o wariant 2002, er mwyn cynnwys gwariant ar raglenni Ewropeaidd yng Nghymru.

### Goblygiadau'r Gyllideb i Gymru

**C12 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am oblygiadau'r gyllideb a gyhoeddwyd ar 17 Ebrill i Gymru? (OAQ17074)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd i drafod pob pwnc sy'n ymwneud â Chymru.

### Cydlynu Polisi yn y Gogledd

**C13 Gareth Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar yr hyn sydd wedi'i wneud dros y chwe mis diwethaf i gydlynu polisi yn well yn y Gogledd? (OAQ17077)

**Prif Weinidog Cymru:** Yn rhinwedd fy swydd fel cydlynydd polisi i'r Gogledd, yr wyf yn ymdrechu i sicrhau bod effeithiau polisïau ar bob rhan o Gymru yn cael eu hystyried wrth i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud penderfyniadau am bolisi, gan gynnwys y Gogledd.

Yn ddiweddar, fe fynychais gyfarfod fforwm economaidd gogledd Cymru yn Wrecsam a chyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yng Nghanolfan Fusnes Conwy.

Yn ddiweddar, lansiais brosiectau datblygu economaidd, sef prosiect The Book People Cyf ym Mharc Menai, Bangor a'r felin ailgylchu papur gwastraff o dan y rhaglen weithredu ar wastraff ac adnoddau werth £128 miliwn yn safle'r cwmni Shotton Paper ar Lannau Dyfrdwy.

### Jiwbilî'r Frenhines

**C14 David Melding:** Beth mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud i hyrwyddo a dathlu Jiwbilî'r Frenhines yng Nghymru? (OAQ17086)

**Prif Weinidog Cymru:** Caiff Gweinidogion y Cynulliad gyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â thaith Jiwbilî Aur y Frenhines yng Nghymru. Hefyd mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynrychiolaeth ar weithgor cystadleuaeth barddoniaeth ac yn talu am gyfieithu a dosbarthu taflenni a phosteri'r gystadleuaeth barddoniaeth. Mater lleol yw dathlu'r Jiwbilî Aur yng Nghymru. Mae cymunedau'n cael eu hannog i'w dathlu yn eu ffordd eu hunain.

## Canolfan Ewropeaidd Cymru

**C15 John Griffiths:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gryfhau swyddfa Llywodraeth y Cynulliad ym Mrwsel a'i bwriad i ymadael â Chanolfan Ewropeaidd Cymru? (OAQ17068)

**Prif Weinidog Cymru:** Rhoddais ddatganiad ar 16 Ebrill a bwriedir cynnal dadl ar y mater hwn yn y Cyfarfod Llawn ar 2 Mai.